

Gyda'n gilydd gallwn rhoi'r gorau i hyn!



merthyrtydfilCBC



@MerthyrCBC



www.merthyr.gov.uk



Arweinwyr Cflwyniad Croeso i Rifyn 48 o CYSWLLT...



Fel y gwelwch o'r erthygl sy'n gynnwysedig yn y rhifyn hwn gan y Dirprwy Arweinydd, y Cyngorydd Phil Williams am Ymgynghoriad y Gyllideb, roeddwn i a fy nghyd-aelodau o'r Cabinet yn ddiolchgar i'r preswylwyr hynny a gyfranogodd yn yr ymgynghoriad hwn i'n helpu ni i wneud y penderfyniadau anodd hynny fel rhan o'r broses gosod y gyllideb.

Ar adeg ei argraffu Cyswllt, byddai adroddiad wedi eisoes mynd at y Cyngor Llawn ar ddydd Mercher, 22 Chwefror, 2017 i drafod ffioedd y'n ymwneud â chladdedigaeithau plentyn a chostau cysylltiedig, gyda'r argymhelliaid bod i hepgor y ffioedd hyn. Gellir gweld y canlyniad ar www.merthyr.gov.uk. Mae hyn yn dilyn ymgyrch genedlaethol a arweinwyd gan fy nghydweithiwr Carolyn Harris AS Dwyrair Abertawe a ofynnodd i Lywodraeth DU ariannu pob claddedigaeith i blentyn. Hyd yma, bu'r Llywodraeth yn ddywedwst ar y mater, ond rwyf yn siŵr y bydd preswylwyr ein Bwrdeistref Sirol yn cefnogi'r Cyngor wrth iddo arwain ar y mater hynod sensitif hwn.

Rwy'n falch o gyhoeddi bod Merthyr Tudful wedi derbyn arian pellach oddi wrth Gronfa Dreftadaeth y Loteri (CDL) i hybu cynlluniau i barhau â dau brif brosiect cadwraeth yn y Fwrdeistref Sirol - Ardal Dreftadaeth Hanesyddol Pontmorlais a Pharc Cyfarthfa, Cofrestredig II.

Am fanylion pellach, gweler yr erthygl ar y dudalen hon.

Mae Tim Menter y Cyngor Bwrdeistref Sirol yn darparu cefnogaeth helaeth i entrepreneuriaid cychwynnol, ac mae ei raglen 'Yn y Cyfamser' yn darparu cyfleoedd i fusnesau newydd a chyfredol brawf-fasnachu eu nwyddau a'u gwasanaethau mewn adeiladau gwag yng nghanolfan siopa Merthyr Tudful am hyd at chwe mis.

Nid yw'n gyd-ddigwyddiad ein bod ni ar y blaen o ran busnesau sy'n cychwyn. Mae llawer o'r llwyddiant hwnnw yn sgil tîm Datblygu Economaidd a Thwristiaeth Strategol y Cyngor, sydd wedi bod yn gweithio i ddarparu pecyn cyflawn o gefnogaeth fusnes i'r economi leol. Mae'r cynllun wedi profi ei fod yn helpu busnesau sy'n cychwyn drwy roi'r hyder a'r hunan barch iddynt adeiladu a thyfu eu busnesau - ac mae hyn wedi ffynnu ym Merthyr Tudful.

Bu'n fraint ac yn anrhydedd i fod yn Arweinydd y Cyngor dros y pum mlynedd ddiwethaf, ac wrth i ni nawr ddechrau ar Purdah ar ein ffordd i'r etholiadau lleol ar 4 Mai, hoffwn ddatgan yn gyhoeddus fy niolchiadau personol i holl breswylwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am eich cefnogaeth dros y cyfnod hwn. Cafwyd toriadau anferthol i Lywodraeth Leol o du Llywodraeth DU, a chafodd rhai gwasanaethau eu cwtogi o ganlyniad, fodd bynnag, gyda'ch help chi, rydym ni wedi cadw'r gwasanaethau hanfodol i redeg. Arddangosodd staff CBSMT wytnwch eithriadol yn ystod y cyfnod anodd iawn na welwyd mo'i debyg ac mae fy niolch iddyn nhw hefyd am eu hymroddiad wrth gyflenwi gwasanaethau o ansawdd uchel i breswylwyr y Cyngor Bwrdeistref.

Brandon Gomer

Hwb sylweddol i dreftadaeth Merthyr gan y Loteri Genedlaethol

Gallai un o drefi mwyaf hanesyddol de Cymru gael ei gweddnewid cyn bo hir diolch i hwb ariannol gwerth hyd at £6.6miliwn gan y Loteri Genedlaethol.

Bydd y gwaith o drawsnewid ardal Pontmorlais ym Merthyr Tudful yn ganolfan ddiwylliannol a chreadigol yn parhau, ynghyd â dau brosiect arall i wella ardal hynod boblogaidd Castell a Pharc Cyfarthfa fydd rhyngddynt yn derbyn hwb o £5.4m*

i ddatblygu eu cynlluniau uchelgeisiol.

Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, caiff ymwelwyr cyn hir gymryd cam yn ôl mewn hanes a mwynhau'r 'oriel ddarganfod' newydd a'i harddangosiadau clyweledol a rhyngweithiol yn darlunio gorffennol lliwgar y castell.

Bydd gwaith sydd yn yr arfaeth ar gyfer yr ardal y tu allan i Gastell Cyfarthfa - yn ei barc 65 hectar rhestredig Gradd II - yn ategu'r


cynlluniau ar gyfer yr adeilad ar ei newydd wedd.

Wrth edrych i'r dyfodol, bydd creu llecynnau newydd ar gyfer mentrau bychain ac egin fusnesau fel rhan o'r gwaith o adfywio Castell Cyfarthfa hefyd yn rhoi hwb economaidd i'r dref.

Dywedodd Richard Bellamy, Pennaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri yng Nghymru: "Diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, mae CDL wedi gallu buddsoddi mewn nifer

o brosiectau gwahanol ym Merthyr, gan fuddsoddi bron i £12m mewn 54 o brosiectau lleol hyd yn hyn".

"Trwy gefnogi'r tri phrosiect gwych diweddaraf hyn, bydd y dref yn elwa fwy fyth o'i threftadaeth - boed hynny'n fusnesau newydd, pobl leol neu ymwelwyr â'r ardal."



Merthyr Tudful a North Shields yn dod at ei gilydd i ddiweddarau cysyniad yr efeilldref

Mae Merthyr Tudful ymhlith un o 10 o drefi'r DU a ddewiswyd i gymryd rhan mewn treial gefeillio domestig a anelwyd at adfywio economïau trefi lleol.

Yn dilyn chwiliad am bartneriaethau a lansiwyd ym mis Hydref y llynedd gan Ymddiriedolaeth Carnegie DU, cafodd Merthyr Tudful ei pharu â North Shields, sef y fwrdeistref fetropolitan yng Ngogledd Tyneside.

Cafodd y cysyniad traddodiadol o'r efeilldref, sy'n dyddio'n ôl i'r Ail Ryfel Byd, wedd newydd - y nod oedd paru trefi sydd â nodweddion neu heriau tebyg, ond â stori gefndir a dulliau gweithredu gwahanol, er mwyn ystyried sut i gyflawni newid cadarnhaol yn y dyfodol.

Mae'r ddwy dref yn rhai diwydiannol yn hanesyddol, gyda Merthyr Tudful yn masnachu haearn a glo, a North Shields pysgota ac adeiladu llongau.

Mae gan y ddwy dref bellach yr un ffocws o ddenu twf economaidd yng nghanol eu trefi ac o wella cyfleoedd cyflogaeth a lles i'w preswylwyr.

Dros y 18 mis nesaf, bydd y trefi'n adeiladu'r hyn sy'n eu clymu at ei gilydd, gan ddyfeisio cynllun gweithredu gefeillio a allai 'aildano eu ffortiwn', derbyn cefnogaeth cynllunio economaidd a chael mynediad at hwb i ariannu gweithgaredd newydd masnachol, gwirfoddol a menter gymunedol.

Dywedodd Gina Wilson, Rheolwr Datblygu Ymddiriedolaeth Carnegie DU: "Nod Gefeilldrefi yw annog trefi i gael effaith gadarnhaol yn lleol, yn enwedig ar adeg pan fo datganoli pwerau i ddinasoedd a rhanbarthau yn dyfod yn fwyfwy amlwg."

"Wrth feithrin perthnasoedd

newydd â phartneriaid y mae'n bosib nad oedd y trefi hyn wedi eu hystyried o'r blaen, y gobaith yw y bydd hyn yn darparu safbwynt newydd a gobeithio, atebion newydd i faterion go iawn a chyfredol. Er nad ydym yn disgwyl i bryderon y trefi gael eu datrys dros nos, y gobaith yw y bydd y partneriaethau newydd yn dechrau rhywbeth cadarnhaol."

Mae partneriaeth Tref Merthyr Tudful yn cael ei harwain gan Ardal Gwella Busnes Calon Fawr Merthyr Tudful. (AGB)

Dywedodd Cadeirydd AGB, Les Byard: "Rydym yn falch iawn o fod yn rhan o'r cyfle cyffrous hwn

i ddatblygu ymhellach hinsawdd busnes a chymdeithasol yn ein tref. Rydym eisoes wedi cael trafodaeth agoriadol â'n partneriaeth newydd yn North Shields, ac rydym yn edrych ymlaen at drefnu ymweliadau cyfnewid dros yr ychydig fisoedd nesaf. Yn glir, bydd cyfle i wneud gwelliannau i gymunedau.

"Ar ran AGB a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rydym yn cynnig ein diolch i Ymddiriedolaeth Carnegie DU am ddewis ein tref, sef un o 10 yn unig ledled y DU, am y cynllun gefeillio newydd hwn."





AROLWG AILGYLCHU – EICH CANLYNIADAU

Ym mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2016, gofynnwn ni i chi, ein preswylwyr, ddweud eich dweud am y gwasanaeth ailgylchu a ddarperir ym Merthyr Tudful.

Roeddem am fesur yr effaith yr oedd y newidiadau a wnaed i'r gwasanaeth yn ôl ym mis Mehefin 2015 wedi ei chael arnoch a chynnig y cyfle i chi fynegi eich safbwyntiau am y newidiadau.

Cafwyd cyfanswm o 101 ymateb i'r arolwg.

- Dywedodd 100% o'r rheini a gymerodd ran eu bod yn ailgylchu o leiaf ychydig, gyda 71% yn dweud eu bod yn ailgylchu popeth y gellir ei ailgylchu
- Roedd 67% unai'n fodlon iawn neu'n fodlon â staff Canolfannau Gwastraff y Cartref ac Ailgylchu
- Roedd 79% unai'n fodlon iawn neu'n fodlon â'r amrywiaeth o ddeunyddiau a dderbyniwyd yn y Canolfannau Gwastraff y Cartref ac Ailgylchu

Caiff rhai o'r themâu/cwestiynau cyffredin a gododd o'r arolwg eu hateb

isod::

Q. Pam na ellir cymysgu ailgylchu gyda'i gilydd a'i osod mewn bin mwy o faint?

A. Caiff y deunyddiau eu casglu ar wahân fel bod deunydd o ansawdd uwch y gellir ei werthu yn cael ei gynhyrchu. Mae'r dull hwn o gasglu deunydd i'w ailgylchu yn sicrhau fod mwy o ddeunydd yn cael ei ailgylchu yn hytrach na'i dirlenwi neu ei anfon at Ynni oddi wrth wastraff.

Q. Ydy'r bagiau bwyd ar gael am ddim?

A. Ydyn, maen nhw AM DDIM! Os yw eich cyflenwad yn isel, clymchwch un at ddolen eich bin bwyd pan fyddwch yn ei osod allan ar gyfer casgliad a bydd ein criw yn gadael rhodyn i chi..

Q. Pam na allaf gael bin sbwriel mwy o faint?

A. Dylai'r bin sbwriel llai, 140l fod yn ddigonol ar gyfer y rhan fwyaf o gartrefi os yw'r holl eitemau ailgylchadwy yr ydym yn eu derbyn yn cael eu hailgylchu.

Os bydd preswyllydd yn cynhyrchu swm sylweddol o wastraff na ellir ei ailgylchu,

fel cewynnau, yna gall wneud cais am fin capasiti ychwanegol.

Q. Faint o fy Nhreth Gyngor sy'n mynd tuag at gasgliad Sbwriel ac Ailgylchu?

A. Roedd swm y Dreth Gyngor a ddrynnwyd ar gyfer casgliadau sbwriel/ailgylchu yn 2015/16 ychydig yn is na 3c (2.92c) am bob £1 ar gyfer Band isaf y Dreth Gyngor.

Q. A gawn ni flychau ailgylchu mwy o faint?

A. Dylai'r blychau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd fod yn addas i'r rhan fwyaf o gartrefi. Os oes angen capasiti ychwanegol, gellir gofyn am flychau ychwanegol drwy ymweld â'n gwefan neu ein ffonio.

Q. Mae'r 'capiaw cawod' ar y blychau ailgylchu yn chwythu i fwrdd. Oes modd arbed hyn rhag digwydd?

A. Mae modd clymu pob ochr o'r capiau at ddolenni'r blwch i'w cadw mewn lle.

Q. Fyddai modd cyflwyno gwasanaeth 'ail-ddefnyddio' i werthu dodrefn a manion bethau?

A. Ar hyn o bryd rydym yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cynllun

ail-ddefnyddio mewn partneriaeth â sefydliad o'r sector gwirfoddol.

Q. Wnewch chi esbonio pam fo gwastraff yn gallu cael ei gasglu o lonydd cefn rhai ardaloedd ond ni all ailgylchu?

A. Mae cerbydau sbwriel yn cael eu llwytho o'r cefn, tra bo cerbydau ailgylchu yn cael eu llwytho o'r ochr. Nid oes yna le bob amser yn y lonydd mwyaf cul i'r criwiau lwytho'r cerbydau ailgylchu'n ddiogel.

Q. Beth allaf ei wneud os nad yw fy nghynwysyddion yn cael eu rhoi yn ôl yn gywir?

A. Dylai cynwysyddion gael eu rhoi yn ôl yn gywir, os nad yw hynny'n digwydd mae angen adrodd yn ôl am hynny i'r Gwasanaethau Gwastraff ar 01685 725138.

Q. Pam nad yw fy min olwynion yn cael ei wagio os nad yw'r caead ar gau?

A. Mae gan CBSMT bolisi o beidio â chasglu biniau gorlawn na sbwriel sy'n cael ei osod wrth ochr y bin ac mae hyn yn ein cynorthwyo ni i gyrraedd targedau ailgylchu ac osgoi tirlenwi.

Mae hyn hefyd er mwyn annog pobl i ailgylchu popeth y maen nhw'n gallu



a sicrhau nad oes unrhyw ddeunydd ailgylchadwy yn cael ei osod yn y bin olwynion.

Caiff eich bin olwynion ei wagio, fodd bynnag bydd gwastraff ychwanegol yn cael ei osod yn ôl yn y bin.

Q. Sut gallaf ddarganfod y dyddiau / wythnosau y mae'r casgliadau ymyl y ffordd yn digwydd?

A. Ewch i recycleformerthyr.co.uk a rhoi eich cod post i ddarganfod pryd.

To view the full survey results visit: www.cwmhafhub.com

Gallwch weld canlyniadau llawn yr arolwg ar: recycleformerthyr.co.uk
Diolch i bawb a gymerodd ran yn yr arolwg a llongyfarchiadau i Catherine Harrington o Benydaren, sef enillydd ffodus cystadleuaeth ennill taleb Tesco gwerth £50.

✉: recycleformerthyr.co.uk

☎: merthyr.gov.uk

☎: 01685 725138

Chwilio Am Arwyr Heroes Wanted

Mae'n amser i lanhau ein gwlad!
Mawrth 1-5, 2017

It's time to clean up our country!
March 1-5, 2017



Byddwch yn falch o fod yn Gymreig ar Ddydd Gŵyl Dewi ac ymunwch â ni ar gyfer Gwanwyn Glân Cymru 2017 ymgrych genedlaethol newydd i annog pobl ledled Cymru i ddod at ei gilydd er mwyn helpu i lanhau ein Cymru hardd!

Mae'r ymgrych yn dechrau ar Fawrth y 1af (pryd arall?) a bydd cyfle i chi gofrestru eich digwyddiad glanhau ac i gael gafael ar adnoddau a gwybodaeth tra hefyd yn gwneud rhywbeth gwych i Gymru.

Fel rhan o'r 'Great British Spring

Clean', mae Cadwch Gymru'n Daclus yn awyddus i ysbrydoli pobl Cymru i fynd tu allan yn yr awyr agored, i fod yn weithgar ac i fod yn falch o ble maent yn byw. Bydd grwpiau cymunedol, ysgolion a busnesau yn cymryd rhan mewn pum niwrnod o weithredu rhwng 1 a 5 Mawrth. Yn ogystal â hyn, bydd CBS Merthyr Tudful yn ymestyn gweithredu tan 14 Mawrth 2017!

I gymryd rhan, ewch i keepwalestidy.cymru

HELPWCH NI YN EIN BRWYDR YN ERBYN TIPIO ANGHYFREITHLON!

Peidiwch â Thalu Masnachwyr Ffug i gymryd eich gwastraff

Gofynna'r Cyngor i breswylwyr i ymddwyn yn gyfrifol wrth gael gwared ar wastraff. Wyddoch chi mai eich cyfrifoldeb CHI yw sicrhau bod eich gwastraff yn cael ei waredu'n gyfreithlon felly os daw masnachwr ffug i'w casglu a'i fod yn diweddu wedi ei dipio'n anghyfreithlon, gallai archwiliad sy'n arwain yn ôl atoch chi olygu eich bod CHI'n cael eich erlyn yn ogystal â'r masnachwr ffug!

Er mwyn gwirio a ydych yn delio â chariwr gwastraff cyfreithlon ewch i:

www.naturalresources.wales

Cyfrifoldeb perchennog busnes

Os ydych yn berchennog busnes mae'n ofyniad cyfreithiol i chi gael contract ar gyfer trosglwyddo, casglu a chael gwared ar eich gwastraff masnachol. Mae hefyd yn ofynnol eich bod yn cadw cofnodion ysgrifenedig o'r holl wastraff a gynhyrchir gan eich busnes am o leiaf dwy flynedd.

Os nad oes contract gennych ar hyn o bryd, gallwch un ai gysylltu â'r Cyngor ar (01685) 725363 i drefnu cael un, neu ddod o hyd i gyflenwr preifat amgen eich hun.

Am ragor o wybodaeth ewch i: <https://www.gov.uk/managing-your-waste-an-overview>

Eitemau swmpus

Mae'r Cyngor yn cynnig casglu eitemau swmpus na allwch eu hailgylchu na chael gwared arnynt yn eich bin olwynion. Am £15 am dair eitem, gallwch ddefnyddio'r gwasanaeth hwn ar gyfer eitemau fel dodrefn mwy o faint ac eitemau trydanol fel peiriant golchi dillad, teledu, ac oergell-rewgell. Neu gallwch gael gwared ag eitemau swmpus neu eitemau cartref y gellir eu hailddefnyddio drwy:

- eu rhoi i elusen leol neu'r gymuned leol, y sector gwirfoddol neu siopau ail law lleol
- gwerthu eitemau drwy hysbysebion am ddim
- rhoi eitemau i ffrindiau neu berthnasau
- defnyddio cwmni preifat sy'n cael gwared ar wastraff
- llogi sgip o gcontractwr preifat

Chanolfannau Gwastraff y Cartref ac Ailgylchu

Mae gan y Cyngor Ganolfannau Gwastraff y Cartref ac Ailgylchu (y Ganolfan) yn Nowlais ac Aberfan ble y gallwch adael eitemau na allwch eu rhoi mewn bin olwynion.

Rhaid i unrhyw breswylwr ym Merthyr Tudful sydd am ddod â gwastraff i'r Ganolfan mewn fan neu drelar wneud cais am drwydded RHAD AC AM DDIM. Nid oes angen trwydded ar geir na cherbydau 4x4 (heb gael eu

seddi wedi eu tynnu allan o'r cefn).

Gellir dod o hyd i wybodaeth bellach am y cynllun trwydded fan neu am gasgliadau swmpus o'n gwefan www.merthyr.gov.uk.

Tir Preifat

Bydded hysbys mai dim ond oddi ar dir y mae'r Cyngor yn berchen arno y bydd y Cyngor yn symud gwastraff. Mae atal a chael gwared ar dipio anghyfreithlon ar tir preifat yn gyfrifoldeb i berchennog y tir yn unig, ac nid oes rheidrwydd cyfreithiol ar GBS Merthyr Tudful i gael gwared ar wastraff wedi ei dipio'n anghyfreithlon o dir preifat, fodd bynnag, byddwn yn cynorthwyo, ble y bo'n bosibl, gydag archwiliadau. Os hoffech siarad â rhywun ynghylch tipio gwastraff yn anghyfreithlon ar eich tir cysylltwch (01685) 725000.

Yn y flwyddyn ddiwethaf cafwyd 49 erlyniad o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 ym Merthyr Tudful, gwerth cyfanswm o dros £24,000 mewn dirwyon a chostau llys.


Beth am weithredu i greu Merthyr Tudful glanach a gwyrddach!

Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Phil Williams yn ddiweddarau preswylwyr ar sefyllfa cyllideb y Cyngor



Pleidleisiodd y cyhoedd i gynnal gwasanaethau hyd yn oed os yw'n golygu cynnydd rhesymol yn y dreth gyngor, gyda 300 o bobol yn dewis yr opsiwn hwn yn hytrach na 76 yn dewis i gwtogi wasanaethau i gadw unrhyw gynydd i Treth y Cyngor i'r isafswm.

Tabl2–Cynnal Gwasanaethau/Torri Gwasanaethau



Camau Nesaf

Mae setliad cyllideb bron ar gyfer 2017-2018 oddi wrth Lywodraeth Cymru wedi cael ei gwtogi gan 0.5%. Golyga hyn y bydd y Cyngor yn gorfod dynodi arbedion a ragwelir yn £5 miliwn ac arbedion eraill o £12 miliwn dros y ddwy flynedd nesaf. Er mwyn gwneud yr arbedion hyn, mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn gwneud busnes a dyfod yn fwy effeithiol ac effeithlon fel Cyngor. Mae hyn yn golygu y bydd angen gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chwtogi gwasanaethau, y Dreth Gyngor ac mewn perthynas â gwasanaethau penodol yn cael eu terfynu'n llwyr. Mae hwn yn amser heriol dros ben i lywodraeth leol ond rhaid i ni barhau i gydweithio i gyflenwi'r gwasanaethau hynny sy'n bwysig i chi, breswylwyr y Fwrdeistref Sirol.

Y Cyngor yn Benthycu er mwyn Cefnogi Gwariant Cyfalaf

Mae benthycu drwy sefydliadau cydnabyddedig fel Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus Llywodraeth DU a phrif fanciau (ar gyfer dyled tymor hir) ac Awdurdodau Lleol eraill, prif fanciau a chwmnïau adeiladu (ar gyfer dyled tymor byr) yn brif ffynhonnell gyllid sy'n galluogi Awdurdodau Lleol i gefnogi gwariant ar adeiladau newydd ysgolion, cartrefi gofal yr henoed, gwelliannau strwythurol ar briffyrdd a phontydd ac adfywio ffisegol canol trefi, isadeiledd a'r amgylchedd.

Nid yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn eithriad ac mae wedi benthycu am gyfnodau tymor hir hyd at 60 o flynyddoedd a chyfnodau tymor byr hyd at 6 mis, ar y cyfraddau llog mwyaf manteisiol ar gael ar

yr adeg, i gefnogi ei gynlluniau gwariant. Mae setliad refereniw blyneddol y Cyngor a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru yn cynnwys swm i gefnogi ad-dalu benthyciad yr ymgymerodd y Cyngor.

Dylid nodi fod benthycu hanesyddol yn amodol ar gyfraddau llog sy'n uwch na benthyciad cyfredol, ond mai hwn oedd yr opsiwn mwyaf manteisiol ar y pryd. Yn ychwanegol, yn ystod Ad-drefnu Llywodraeth Leol ym 1996, etifeddodd y Cyngor gyfran o ddyled Cyngor Sir Morgannwg Ganol, nad oedd wedi ei thalu.

Ar 31 Mawrth 2016 cyfanswm dyled tymor hir heb ei thalu y Cyngor oedd £68 miliwn, ar gyfartaledd cyfradd llog o 6.8%. Pan ystyrir y gellir fforddio hynny, mae'r Cyngor wedi ad-dalu benthyciadau hanesyddol yn gynnar, drwy ail amserlennu dyled ble mae benthyciadau â chyfraddau llog uwch wedi eu trosi'n fenthyciadau â chyfraddau llog is.


Mae'r Tabl canlynol yn crynhoi portffolio'r Cyngor o fenthyciadau tymor hir heb eu talu ar 31 Mawrth 2016 ac yn arddangos fod benthyciad wedi ei sicrhau ar gyfraddau llog sylweddol is na'r hyn oedd yn hanesyddol.

Degawd Benthycwyd	Benthyciadau heb eu talu 31 Mawrth 16 £ miliwn	Cyfartaledd Cyfradd Llog %
1980au	8	9.5
1990au	29	9.1
2000au	16	4.5
2010au	15	3.3
Cyfanswm	68	6.8

Er bod penderfyniadau ar wario a benthycu yn gadwedig i bob Awdurdod Lleol unigol, mae'r Tabl canlynol yn dynodi mai'r 5ed uchaf yn unig yw'r Cyngor yn y rheng ddyled tymor hir sydd heb ei thalu am bob poblogaeth o sampl o Awdurdodau Lleol cymdogol, ar 31 Mawrth 2016.

Awdurdod Lleol	Dyled tymor hir £miliwn	Poblogaeth (mil)	Dyled am bob Pen o'r Boblogaeth £	Rheng
Caerffili	287	179	1,603	1
Blaenau Gwent	110	70	1,571	2
Castell Nedd Port	220	140	1,571	2
Talbot	188	146	1,287	4
Casnewydd	68	63	1,079	5
Merthyr Tudful	96	91	1,055	6
Tor-faen	196	234	837	7
Rhondda Cynon Taf	97	139	698	8
Pen-y-bont ar Ogwr				

Tabl 1 – Sut y dylid blaenoriaethu gwasanaethau



Arolwg Bodlondeb Preswylwyr 2016

Cyflawnwyd Arolwg Bodlondeb Preswylwyr y llynedd o 31 Awst tan 23 Rhagfyr 2016, pan gafodd yr holl breswylwyr wahoddiad i gymryd rhan a dweud eu dweud ynghylch gwasanaethau cyhoeddus ym Merthyr Tudful.

Diben yr arolwg oedd derbyn eich safbwyntiau am amrywiaeth eang o faterion sy'n berthnasol i Ferthyr Tudful.

Yn eu plith mae addysg, gofal cymdeithasol a rheoli gwastraff, ble mae'r Cyngor yn gwario swm mawr o'i arian.

Mae'r Cyngor yn benderfynol, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, o wella ansawdd y gwasanaethau rydych yn eu derbyn. Bydd canlyniadau'r arolwg yn helpu i lunio'r modd y caiff y gwasanaeth ei gyflenwi ledled y

Fwrdeistref Sirol.

Diolch i bawb a gymerodd ran a llongyfarchiadau i Christopher Webber a enillodd taleb Tesco gwerth £100 yng nghystadleuaeth yr Arolwg.

Er mwyn gweld y canlyniadau ewch i www.merthyr.gov.uk neu, i ofyn am gopi caled, ffoniwch 725052/725087.



Ei addoli y maer, y Cynghorydd Margaret Davies, yn cyflwyno'r taleb



Cynllun Hyfforddiant Cyflogaeth nawr ar gael yn y Gymraeg

Mae Cynllun Hyfforddiant Cyflogaeth, sy'n rhad ac am ddim yn awr ar gael i drigolion lleol Merthyr Tudful trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Sgiliau Gwaith ar gyfer Oedolion 2 (WSfA2), sy'n cael ei ariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn cefnogi pobl sydd eisoes yn gweithio ac sy'n awyddus i wella eu sgiliau gweithiol neu sy'n meddwl am newid gyrfa. Ceir amrywiaeth eang o gyrsiau cymunedol mewn meysydd megis hylendid bwyd, TG, gweinyddu busnes, gwallt a harddwch, cymorth cyntaf, codi a chario, Mathemateg a Saesneg. Mae gan y prosiect Swyddog Cydlyn Cyflogai a all gynorthwyo a chynghori ar y math o hyfforddiant sydd eu hangen.

Roedd Llŷr Evans, sy'n Swyddog gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac sydd hefyd yn siaradwr Cymraeg am ddiweddarau ei CV er mwyn cynyddu ei hunanhyder ac ymgeisio am ystod ehangach o swyddi. "Fel siaradwr Cymraeg, roeddwn yn hynod falch i weld fod modd i mi gwblhau'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg," dywedodd Llŷr. "Roedd y gwasanaeth hyfforddi a gynigwyd gan y tiwtoriaid yn wych ac mae nawr gen i CV yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd wedi eu diweddarau ac sy'n berthnasol." Mae prosiect y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd sy'n cael ei rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn darparu hyfforddiant hyblyg sy'n medru ffitio

o amgylch ymrwymiadau gwaith ac mae hefyd yn cynnwys sesiynau un i un. Gall unrhyw un a hoffai ganfod os ydynt yn gymwys ar gyfer y gefnogaeth gysylltu â'r tîm WSfA2 ar 01685 727070, ✉:WSfA2@merthyr.gov.uk neu fynd i

Working Skills for Adults 2 Merthyr Tydfil.



yw eich tacsï didrwydded yn ddiogel i fynd â chi adref heno?

Mae pob tacsï trwyddedig yn amodol i brofion rheolaidd

ac yn cael eu hyswrio ar gyfer defnydd masnachol.

**Cyrraedd adref yn ddiogel
Cael tacsï trwyddedig**

I roi gwybod am gerbyd heb drwydded, ffoniwch (01685) 725000
neu e-bost – licensing@merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn cefnogi Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2017, cymeradwywyd y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ymrwymo i oruchwyllo twf economaidd y rhanbarth a chyflenwi cynigion a ddaw yn 20 mlynedd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Rhaid i bob awdurdod oddi fewn i'r Rhanbarth hefyd gymeradwyo ymrwymiad i fenthylg cyfanswm cyfunedig o £120 miliwn fel rhan o Gronfa Buddsoddi Ehangach Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae hon yn rhan bwysig o broses y Fargen Ddinesig. Mae'r deg awdurdod wedi gweithio'n hynod o agos at ei gilydd dros yr 16 mis diwethaf i gael y Fargen Ddinesig i'r safle hwn, ond mae cefnogaeth i'r Fargen Ddinesig oddi wrth yr aelodau hynny o'r awdurdodau yn hanfodol er mwyn datblygu'r Fargen hynod o gyffrous hwn ar y cyd.

Gyda'n gilydd bydd hwn yn dod â newid economaidd a chymdeithasol i Ranbarth Ddinesig Caerdydd, drwy wella trafniadaeth, cefnogi arloesedd, gwella rhwydwaith digidol, datblygu sgiliau, cefnogi menter a twf busnes, a thrwy ddatblygu tai ac adfywio."

Yna, yn amodol ar y pleidleisiau gan bob awdurdod, bydd Bargaen

Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn dechrau ar gam pontio. Bydd Cynllun Pontio Rhanbarth Ddinesig Caerdydd Mawrth 2017 – Medi 2017 (i'w gyhoeddi) yn manylu ar y gweithgaredd allweddol yr ymgymerir ag e, yn cynnwys sefydlu Swyddfa Ranbarthol i lywio cyflenwi rhaglen waith y Cabinet Rhanbarthol (i'w

gyhoeddi) wrth ragweld derbyn ceisiadau ar ddiwedd y flwyddyn hon.

Dywedodd y Cyngorydd Brendan Toomey, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful: "Rydw i'n falch fod aelodau lleol wedi cefnogi'r Fargen Ddinesig, sy'n cynrychioli cyfle ardderchog i wella perfformiad economaidd yr holl ranbarth'.

Ychwanegodd: "Edrychaf ymlaen at weithio'n agos â chyd Arweinwyr i wneud y fargen y llwyddiant."

Y deg awdurdod lleol yw: Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr, Mynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Tor-faen, Bro Morgannwg.


Am wybodaeth bellach am

Brifddinas-Ranbarth Caerdydd ewch i

www.cardiffcapitalregioncitydeal.wales

neu gallwch ddilyn ar

@ccrcitydeal





Diwrnod Ymwybyddiaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CRhB)

Mae Diwrnod Ymwybyddiaeth CRhB ar 18 Mawrth 2017. Er mwyn nodi hyn, caiff taflen i rieni a gofawyr am sut i sylwi ar arwyddion CRhB, ei lansio. Caiff digwyddiad ymgynghori ei gynnal hefyd ym mis Mawrth i gynorthwyo Bwrdd Diogelu Plant Cwm Taf gasglu

safbwyntiau rhieni a gofawyr ynghylch beth yn fwy y gellir ei wneud fel cymuned i ddiogelu plant yn erbyn y math hwn o gam-drin. Cadwch lygad allan am ragor o fanylion ar www.cwmtafsafeguarding.org neu gofynnwch yn eich ysgol leol am ragor o wybodaeth.

Ydych chi'n poeni am rywun?

Os ydych chi'n amau bod person yn cael ei niweidio neu mewn perygl o gael ei niweidio, yna mae dyletswydd arnoch i roi gwybod am hynny ar unwaith. Caiff pob galwad ynghylch pryderon am oedolion neu blant sy'n agored

i niwed eu trin yn ddifrifol. Cysylltwch â'ch Tîm Diogelu lleol ar 01685 725000. Am Achosion Brys y Tu Allan i Oriau Swyddfa, cysylltwch â Thîm Dyletswydd Cwm Taf ar 01443 743665. Os ydych chi'n amau bod

person mewn risg dybryd, ffoniwch 999 a siaradwch â'r Heddlu.

Cofiwch – mae diogelu yn fusnes i bawb!

Am ragor o wybodaeth a chyngor ewch i:

✉: www.cwmtafsafeguarding.org



Dewis Cymru

Cael dewis a rheolaeth

Chwiliwch am wasanaethau yn y gymuned i'ch cefnogi chi a'ch teulu



Ydych chi'n darparu gwasanaeth yn lleol neu ydych chi'n gyfrifol am redeg grŵp neu glwb?

Os ydych, pam na chofrestrwch ar wefan DEWIS Cymru!

Mae'r safle wedi cael ei chynllunio i ddarparu gwybodaeth ar amrywiaeth o adnoddau er mwyn helpu pobl i fyw bywydau mwy llesol. Ceir yma amrywiaeth o grwpiau cymunedol lleol i elusennau cenedlaethol a gwasanaethau statudol.

Mae'n hawdd ei wneud a gallwn ddarparu cefnogaeth i'ch helpu i gofrestru'ch gwybodaeth.

Mae CBS Merthyr Tydfil a ChBS Rhondda Cynon Taf wedi ymuno â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf a phartneriaid trydydd

sector, Interlink a GGMT i sicrhau fod y wefan yn gyfuriog o wybodaeth leol i'w chymunedau – o hamdden i daliadau uniongyrchol.

Bydd yn ffurfio rhan o'r gwaith ehangach sy'n cael ei gynnig ledled Cwm Taf, o ganlyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru), sy'n rhoi cyfle i bobl gael mwy o ddweud yn y modd y maent yn cael eu gofalu amdanynt. Mae hefyd yn pwysleisio'r modd y mae gwybodaeth o'r safon uchaf yn gwbl allweddol er mwyn helpu pobl i fod yn annibynnol, rheoli eu lles a theilwra'r math o ofal y maent yn eu derbyn.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Swyddog Cymorth, Gwybodaeth & Chyngor ar 01685 725011 Sharon.davies@merthyr.gov.uk www.dewis.wales

Young Carers: Who are they? What do they do?



Who are young carers?

A young carer is someone under 18 who helps look after someone in their family, or a friend, who is ill, disabled or misuses drugs or alcohol.

How many young carers are there?

- There are about 700,000 young carers in the UK. (BBC 2010)
- That's about 1 in 12 secondary aged pupils.
- There are likely to be young carers in every school and college.

*The Census identified over 300,000 young carers, but many remain hidden.



Who do young carers care for?

- Young carers care for someone:
- With an illness or disability.
 - With a mental health condition.
 - Who misuses drugs or alcohol.

What might a young carer do?

- Practical tasks, such as cooking, housework and shopping.
- Physical care, such as helping someone out of bed.
- Emotional support, such as talking to someone who is distressed.
- Personal care, such as helping someone dress.
- Managing the family budget and collecting prescriptions.
- Helping to give medicine.
- Helping someone communicate.
- Looking after brothers and sisters.

Being a young carer can have a big impact on the things that are important to growing up

- It can affect a young person's health, social life and self confidence.
- Many young carers struggle to juggle their education and caring, which can cause pressure and stress.
- In a survey, 39% said that nobody in their school was aware of their caring role.
- 20% have been bullied at school because of their caring role.
- 1 in 20 miss school because of their caring role.

But young people can learn lots of useful skills by being a young carer.

1 in 3 young carers spend between 11-20 hours each week caring.

Which one is the young carer?



Young carers are just young people – with caring responsibilities! They look the same as everyone else but they can lead very different lives!

The average age of a young carer

= 13

"Don't stereotype us, we are all individuals." Young carer

Information and support

babble.carers.org
matter.carers.org



Young carers should have:

- The time to be a young person.
- The same opportunities as their friends.
- Good support for the person they help look after.
- Their rights acknowledged so that they can discuss their needs for support.

Carers Trust is a registered charity in England and Wales (1145181) and in Scotland (SC042870). Registered as a company limited by guarantee in England and Wales No. 7697170. Registered office: 22-36 Loman Street, London SE1 0EH. © Carers Trust 2017.

Cyngor Iechyd Cymunedol Cwm Taf : Yr hyn a wnawn ar eich rhan chi

Rydym yn sefydliad annibynnol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru i gynrychioli eich llais i'r GIG. Rydym yn casglu eich safbwyntiau a'ch profiadau ac yn gwneud argymhellion i Fwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf ynghylch sut y gellir gwella gwasanaethau o safbwynt y claf. Rydym yn ymweld ag ysbytai a gwasanaethau

cymunedol i siarad â chleifion, teuluoedd, ffrindiau a staff i gael gwybod am eu profiadau.

Yn ychwanegol at hyn mae gennym Wasanaeth Eiriolaeth Annibynnol sy'n cynnig cefnogaeth wrth wneud cwyn pan fydd pethau'n mynd o'i le. Bydd lefel y gefnogaeth yn dibynnu ar anghenion unigol pob achwynydd. Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn

gyfeillgar ac yn gyfrinachol; rydym yn canolbwyntio ar annog y GIG i ddysgu oddi wrth eich profiadau a gwella gwasanaethau.

Rydym yn chwilio am aelodau gwirfoddol ar hyn o bryd i helpu gyda'n gwaith. Os oes gennych o leiaf 5 awr i'w sbario bob mis, cysylltwch â ni.

Os ydych chi neu rywun yr ydych yn ei adnabod ag

angen gwneud cwyn am wasanaethau GIG cysylltwch â ni drwy ffonio'r rhif isod:

Cyngor Iechyd Cymunedol Cwm Taf

10 Maritime Offices
Woodland Terrace
Maesycoed
Pontypridd
CF37 1DZ

☎: 01443 405830

✉: enquiries.cwmtafchc@waleschc.org.uk

www.facebook.com/Cwm-Taf-Community-Health-Council






ETHOLIADAU LLEOL
#ArGarregyDrws

Cofrestrwch i bleidleisio erbyn dydd Iau 13 Ebrill
gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio

Merthyr Tudful Gwasanaethau
Democrataidd
E-bosy: Democratic@merthyr.gov.uk
Ffôn: (01685) 725284

MAE DY BLEIDLAIS YN CYFRI
PAID COLLI DY GYFLE

YDYCH CHI'N NIWSANS WRTH BARCIO GER GÂT YR YSGOL?

Golygfa gyffredin bellach yw ceir gefn-gefn mewn llinell ar hyd llinellau melyn dwbl ac ar balmentydd y tu allan i'n hysgolion. Felly mae swyddogion CBS Merthyr Tudful wedi ymuno â Heddlu De Cymru i ddefnyddio pwerau gorfodi ar gyfer cerbydau sy'n achosi trafferth i fodurwyr eraill gan osod bywydau plant mewn perygl drwy flocio'r olygfa wrth iddynt geisio groesi'r ffordd.

Mae gweithredu'n digwydd yn dilyn nifer o gwynion oddi wrth rieni, preswylwyr ac athrawon fel ei gilydd.

Yn aml, byddwch yn clywed pobl yn dweud eu bod yn credu'i fod yn iawn i barcio'n anghyfreithlon am ychydig funudau'n unig, ond mewn gwirionedd mae hyn creu problem ddifrifol – nid yn unig am ei fod

yn ei wneud yn anodd i fodurwyr eraill negodi'r strydoedd, ond am ei fod yn fygythiad gwirioneddol i ddiogelwch plant.

I'ch atgoffa, caiff unrhyw un sy'n parcio'n anghyfreithlon ddirwy o £70.

Byddwch hefyd yn gweld Tîm Diogelwch y Ffordd y Cyngor, Swyddogion Iau Diogelwch y Ffordd, Swyddogion Gorfodi Sifil a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn sefyll y tu allan i ysgolion yn ystod adegau prysur i atgoffa rhieni o ufuddhau i'r gyfraith gyda'r nod o newid agweddau cymdeithas i'r mater difrifol iawn hwn.

Rydym ni wirioneddol am gyfleu'r neges ynghylch parcio anystyriol sef nad yw'n unig yn niwsans ond ei fod hefyd yn creu gwir berygl i blant ysgol.




Cist Gymunedol Heini Merthyr Tudful 2015-2017



Rhoddwyd £116,604 i ffwrdd yn ystod y Ddwy Flynedd Ddiwethaf!

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae Heini Merthyr Tudful wedi bod yn helpu clybiau, sefydliadau a grwpiau cymunedol ym Merthyr Tudful i wario dros £100,000 mewn arian grant i wella clwb, sefydliad neu grŵp cymunedol! Os ydych am gael grant hyd at £1500 i helpu i wella eich clwb, sefydliad neu grŵp cymunedol yna cysylltwch â Heini Merthyr Tudful nawr, a gallwn roi cychwyn ar bethau ar unwaith.

Gwariant Cist Gymunedol



Panelli 2017/2018

1. 26 Ebrill 2017
2. 28 Mehefin 2017
3. 26 Gorffennaf 2017
4. 27 Medi 2017
5. 29 Tachwedd 2017
6. 24 Ionawr 2018

Sut ydw i'n ymgeisio?



#1

Cysylltu â Heini Merthyr Tudful



#2

Creu Cyfrif Ar-lein (Gallwn roi arweiniad i chi wneud hyn)



#3

Llenwi'r ffurflen gais gydag Aelod o Dîm Heini Merthyr Tudful



#4

Cyflwyno Gais



Cysylltwch, mae ymgeisio'n hawdd, e-bostiwch: activemerthyrtudful@merthyr.gov.uk neu ffoniwch 01685727493, edrychwn ymlaen at eich helpu i wella eich clwb, sefydliad neu grŵp cymunedol!!!
"Hoffwch" dudalen Heini Merthyr ar Facebook, neu "Ddilyn" Heini Merthyr ar Twitter.



RHOWCH WYBOD
YMFALCHIO YM
MERTHYR TUDFUL
(01685) 725000
www.merthyr.gov.uk/tipio-anghyfreithlon
#CansMerthyrTudful

REPORT IT
TAKE PRIDE
IN MERTHYR TYDFIL
(01685) 725000
www.merthyr.gov.uk/fly-tipping
#LoveMerthyrTydfil





Hysbysiadau Cyhoeddus

HYSBYSIAD O GADARNHAU GORCHYMYN

**DEDDF PRIFYRDD 1980
CYNGOR BWRDEISTREF
SIROL MERTHYR TUDFUL
GORCHYMYN ADDASU
DOWLAIS 18 2016**

Ar 28 Chwefror 2017 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y Gorchymyn uchod o dan Adran 119 Deddf Prifffyrdd 1980.

Caiff ei gadarnhau mai effaith y Gorchymyn fydd gwyro'r llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg o gyfeirnod grid SO05940736 i gyfeirnod grid SO05940736 hyd at linell sy'n rhedeg o gyfeirnod grid SO05940736 i gyfeirnod grid SO05960732, fel y dangosir ar y mapiau gorchymyn.

Mae copi o'r Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd a mapiau'r Gorchymyn wedi eu gosod, a gellir eu harchwilio am ddim, yn Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TG rhwng yr oriau 0900 i 1700 ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £10.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 28 Mawrth 2017, ond os oes unrhyw berson a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn am gwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth sy'n gynwysedig ynddo ar y sail nad yw oddi fewn i bwerau Deddf Bywyd Gwylt Chefn Gwlad 1981 neu ar y sail nad yw'n cydsynio ag unrhyw ofynion unrhyw Ddeddf neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gall e neu hi, o dan baragraff 12(1) Atodlen 15 y Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 mis o 1 Mawrth 2017.

Dyddiedig 1 Chwefror 2017

C M Kennedy,
Rheolwr Gwasanaethau
Cyfreithiol a Democrataidd,

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig,
Stryd y Castell
Merthyr Tudful CF47 8AN

**HYSBYSIAD O GADARNHAU
GORCHYMYN ADDASU
DEDDF BYWYD GWYLLT A
CHEFN GWLAD 1981
CYNGOR BWRDEISTREF
SIROL MERTHYR TUDFUL
GORCHYMYN ADDASU MAP
DIFFINIOL TROEDYRHIW
115**

Ar 28 Chwefror 2017 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y Gorchymyn uchod o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

Caiff ei gadarnhau mai effaith y Gorchymyn fydd addasu'r Map a Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal drwy ychwanegu atynt lwybr troed sy'n dechrau ar y briffordd gynaliadwy wrth gât a chyfagos i gât mochyn cyfeirnod grid SO06760353 ac sy'n parhau i gychwyn ar hyd arwyneb tarmacadam ac yna ar hyd trac pridd am tua 76 metr i gyfeiriad cyffredinol de-ddwyreiniol a therfynu wrth gyfeirnod grid SO06810348 ble y mae'n ymuno â llwybr ceffyl Troedryhiw 200 sy'n Dramwy Cyhoeddus. Mae'r lled rhwng 2-3 metr.

Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £10.

Daeth y Gorchymyn i rym ar 28 Chwefror 2017 ond os oes unrhyw berson a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn am gwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth sy'n gynwysedig ynddo ar y sail nad yw oddi fewn i bwerau Deddf Bywyd Gwylt Chefn Gwlad 1981 neu ar y sail nad yw'n cydsynio ag unrhyw ofynion unrhyw Ddeddf neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r

Gorchymyn, gall e neu hi, o dan baragraff 12(1) Atodlen 15 y Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 mis o 1 Mawrth 2017.

Dyddiedig 1 Mawrth 2017

C M Kennedy,
Rheolwr Gwasanaethau
Cyfreithiol a Democrataidd,
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y
Castell
Merthyr Tudful CF47 8AN

**HYSBYSIAD O GADARNHAU
GORCHYMYN ADDASU
DEDDF BYWYD GWYLLT A
CHEFN GWLAD 1981
CYNGOR BWRDEISTREF
SIROL MERTHYR TUDFUL
GORCHYMYN ADDASU MAP
DIFFINIOL TROEDYRHIW
203 2016**

Ar 28 Chwefror 2017 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y Gorchymyn uchod o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

Caiff ei gadarnhau mai effaith y Gorchymyn fydd addasu'r Map a Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal drwy ychwanegu atynt lwybr troed sy'n dechrau wrth gyfeirnod grid SO06910345 a pharhau ar hyd arwyneb naturiol i gyfeiriad cyffredinol de-ddwyreiniol am tua 207 metr a therfynu wrth gyfeirnod grid SO07050329. 1 metr yw'r lled.

Mae copi o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn sy'n gynwysedig ynddo wedi eu gosod, a gellir eu harchwilio am ddim, yn Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TG rhwng yr oriau 0900 i 1700 ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £10.

Daeth y Gorchymyn i rym ar 28 Chwefror 2017 ond

os oes unrhyw berson a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn am gwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth sy'n gynwysedig ynddo ar y sail nad yw oddi fewn i bwerau Deddf Bywyd Gwylt Chefn Gwlad 1981 neu ar y sail nad yw'n cydsynio ag unrhyw ofynion unrhyw Ddeddf neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gall e neu hi, o dan baragraff 12(1) Atodlen 15 y Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 mis o 1 Mawrth 2017.

Dyddiedig 1 Mawrth 2017

C M Kennedy,
Rheolwr Gwasanaethau
Cyfreithiol a Democrataidd,
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y
Castell
Merthyr Tudful CF47 8AN

**HYSBYSIAD O
GADARNHAU
GORCHYMYN ADDASU
DEDDF BYWYD GWYLLT A
CHEFN GWLAD 1981
CYNGOR BWRDEISTREF
SIROL MERTHYR TUDFUL
GORCHYMYN ADDASU
MAP DIFFINIOL
TROEDYRHIW 213 2016**

Ar 28 Chwefror 2017 cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful y Gorchymyn uchod o dan Adran 53 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

Caiff ei gadarnhau mai effaith y Gorchymyn fydd addasu'r Map a Datganiad Diffiniol ar gyfer yr ardal drwy ychwanegu atynt lwybr troed sy'n dechrau wrth gyfeirnod grid SO06910345 a pharhau ar hyd arwyneb naturiol i gyfeiriad cyffredinol de-ddwyreiniol am tua 207 metr a therfynu wrth gyfeirnod grid SO07050329. 1 metr yw'r lled.

Mae copi o'r Gorchymyn a map y Gorchymyn sy'n

gynwysedig ynddo wedi eu gosod, a gellir eu harchwilio am ddim, yn Uned 5, Parc Busnes Triongl, Pentrebach, Merthyr Tudful CF48 4TG rhwng yr oriau 0900 i 1700 ddydd Llun i ddydd Gwener.

Gellir prynu copïau o'r Gorchymyn a'r map yno am £10.

Daeth y Gorchymyn i rym ar 28 Chwefror 2017 ond os oes unrhyw berson a dramgwyddwyd gan y Gorchymyn am gwestiynu ei ddilysrwydd, neu unrhyw ddarpariaeth sy'n gynwysedig ynddo ar y sail nad yw oddi fewn i bwerau Deddf Bywyd Gwylt Chefn Gwlad 1981 neu ar y sail nad yw'n cydsynio ag unrhyw ofynion unrhyw Ddeddf neu unrhyw reoliad a wnaed o dan y Ddeddf mewn perthynas â'r Gorchymyn, gall e neu hi, o dan baragraff 12(1) Atodlen 15 y Ddeddf, wneud cais i'r Uchel Lys ymhen 6 mis o 1 Mawrth 2017.

Dyddiedig 1 Mawrth 2017

C M Kennedy,
Rheolwr Gwasanaethau
Cyfreithiol a Democrataidd,
Cyngor Bwrdeistref Sirol
Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig, Stryd y
Castell
Merthyr Tudful CF47 8AN